**Y CYNGOR**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 07 GORFFENNAF 2025, yn y Ganolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Paul Bevan; Yr Athro Sarah Davies; Kate Eden; Kylie Evans; Nanw Maelor, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA; Yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Aloysius Igboekwu; Millie Hackett, Undeb Aberystwyth; Dan Richards; Arwel Thomas; Mark Tweed; Jane Usherwood; Claire Vaughan; Yusuf Ibrahim; a Rhuanedd Richards, ar-lein. |
| Yn gweinyddu: | Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro; Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol; Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg. |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr Athro Simon Green a Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol.

**57. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Llongyfarchiadau

   Gwnaeth y Cadeirydd longyfarch Paul Bevan ar gael ei argymell fel yr ymgeisydd a ffafrir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg fel Cadeirydd Bwrdd Cymwysterau Cymru.

2. Mae Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) wedi lansio adolygiad mawr o'i Chod Llywodraethu Addysg Uwch. Gofynnwyd i Gadeirydd y Cyngor eistedd ar y grŵp llywio, sy'n cynrychioli Cadeiryddion Cymru.

**58. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

O ran eitem 8.4 ar yr agenda, bydd Jane Usherwood yn ymuno â bwrdd ymddiriedolwyr CPAPA fel cynrychiolydd y Cyngor. Gwnaeth dau o fuddiolwyr cynllun pensiwn ddatgan gwrthdaro buddiannau.

**59. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2025 (COU2425-100).

Nododd yr Aelodau, er eglurder, y dylai eitem 52.2 gyfeirio at 'recriwtio staff'.

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o’r hyn a drafodwyd.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

**60. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2425-101).

NODWYD

1. Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeëdig.

2. Mae'r camau gweithredu gyda dyddiadau targed ym mis Gorffennaf oll wedi'u cwblhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y ddau sy'n weddill.

**61. GOHEBIAETH**

1. <u>Proses Ddilynol ACF 2025</u>

   DERBYNIWYD

   Llythyr gan Simon Pirotte, Prif Weithredwr Medr (COU2425-102) yn nodi'r newidiadau i'r broses ddilynol ar gyfer yr ACF 2025, gyda'r nod o leihau'r baich ar sefydliadau ac i gydnabod y cyfnod pontio presennol.

   **NODWYD**

   1. Nodwyd yr ohebiaeth gan yr aelodau.

**62. CADEIRYDD Y CYNGOR (Eitem 9.7 ar yr agenda)**

**Gwnaeth y Cadeirydd adael y cyfarfod a chadeiriodd Rhuanedd Richards yr eitem hon**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-116).

NODWYD

1. Penodwyd Meri Huws yn Gadeirydd o 1 Ionawr 2024. Penodir y Cadeirydd fel arfer am dymor o bedair blynedd, ond cytunwyd ar gais y Cadeirydd i adolygu'r swydd yn haf 2025.

2. O'r adborth drwy'r broses adolygu, a phroses hunanasesiad y Cyngor , mae hi'n gwneud gwaith ardderchog fel Cadeirydd ac wedi bod yn ddylanwadol yn allanol ar lefel genedlaethol, yn ogystal ag yn Aberystwyth.

3. Yr argymhelliad gan y Pwyllgor Enwebiadau oedd ei bod yn parhau tan 31 Gorffennaf 2027. Mae hyn yn fyrrach na'r 4 blynedd a wasanaethir fel arfer gan Gadeirydd ond mae'n cydnabod y byddai wedi gwasanaethu am 8 mlynedd fel Aelod o'r Cyngor erbyn 2027. Byddai hyn yn darparu sefydlogrwydd a pharhad wrth i'r Brifysgol lywio datblygiadau strategol pwysig ac yn rhoi cyfle i benodi Cadeirydd newydd ac i sicrhau proses drosglwyddo esmwyth.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

PENDERFYNWYD

4. Roedd yr Aelodau'n unfryd eu cymeradwyaeth i'r argymhelliad.

**Dychwelodd y Cadeirydd i'r cyfarfod.**

**63. AELODAETH Y CYNGOR (Eitem 9.1 ar yr agenda)**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-110)

NODWYD

1. Roedd yr adolygiad diweddar o effeithiolrwydd y llywodraethu yn cynnwys yr argymhelliad canlynol: 'parhau i ehangu amrywioldeb ar draws aelodaeth y Cyngor ar bob cyfle i recriwtio i'r Cyngor a'i bwyllgorau'. Cytunodd y Cyngor â'r argymhelliad ym mis Mawrth 2025 a nododd y dylid ei amlygu fel gweithred barhaus dros y blynyddoedd nesaf wrth i dymhorau aelodau'r Cyngor ddod i ben.

2. Ystyriodd y pwyllgor enwebiadau yr aelodaeth a thrafod rhai o'r bylchau sgiliau ar y Cyngor. Ystyriaethau allweddol oedd unigolion â phrofiad sylweddol ar lefel Prif Swyddog Gweithredol, yn enwedig gyda chefndir mewn addysg. Roedd amrywioldeb yn ei ystyr ehangach hefyd yn ystyriaeth allweddol yn dilyn yr argymhelliad o'r adolygiad llywodraethu a dderbyniwyd gan y Cyngor. Byddai'r matrics sgiliau ac amrywioldeb hefyd yn cael ei ystyried ar draws y Cyngor a'r is-bwyllgorau, gan edrych ar gyfleoedd i ddatblygu doniau ac elfennau o gynllunio olyniaeth.

3. Er mwyn gwella tryloywder y broses ac i adlewyrchu'r argymhelliad y cytunwyd arno o'r adolygiad Llywodraethu, argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau i'r Cyngor hefyd y dylid ffurfioli'r broses ar gyfer ymestyn aelodaeth am ail dymor. Nodwyd bod yna elfen o hyblygrwydd o hyd, lle gall y Pwyllgor Enwebiadau argymell i'r Cyngor bod aelodau yn gwasanaethu am ail dymor os oedd cyfiawnhad penodol. Gall hyn fod yn gysylltiedig â chyfres o sgiliau penodol, neu unrhyw ystyriaethau eraill a fyddai'n effeithio ar effeithiolrwydd y Cyngor.

4. Argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau i'r Cyngor y dylid ymgymryd â phroses recriwtio agored ar gyfer un aelod o'r Cyngor, ac aelodau cyfetholedig o'r is-bwyllgorau.

5. Nododd yr aelodau efallai na fyddai hi bob amser yn briodol cael proses recriwtio agored, os oes aelod y mae'r Cyngor yn awyddus i gadw eu sgiliau a'u cyfraniad. Nododd yr aelodau hefyd, er bod presenoldeb yn bwysig, y dylai cyfraniad yn ystod cyfarfodydd ac yn fwy cyffredinol fod yn ystyriaeth allweddol.

6. Wrth i gylch gorchwyl ac aelodaeth pwyllgorau gael eu hadolygu, rhoddwyd ystyriaeth i'r aelodau o staff anacademaidd ar is-bwyllgorau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio yn benodol yn cynnwys '1 aelod o staff anacademaidd' yn yr aelodaeth. Mae'r ddau bwyllgor hyn yn cynnwys aelodau o staff sydd wedi'u hethol i'r Senedd fel aelodau o staff anacademaidd. Nid ydynt yn aelodau o'r Cyngor ac nid ydynt wedi cael eu hethol i'r Cyngor. Mae'r is-bwyllgorau eraill yn nodi '1 Aelod Staff (wedi ei benodi o blith staff y Senedd a'r aelodau staff anacademaidd ar y Cyngor neu'r pwyllgorau llywodraethu)'. Argymhellodd y

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

Pwyllgor Enwebiadau i'r Cyngor glustnodi is-bwyllgor i'r aelodau staff sydd wedi'u hethol i'r Cyngor yn ôl eu sgiliau a'u harbenigedd.

7. Nododd yr aelodau yr awydd i newid y term 'aelod staff anacademaidd' i 'aelod o staff y gwasanaethau proffesiynol'. Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd ar lefel y Weithrediaeth i ddeall unrhyw oblygiadau posibl, cyn i gynnig ffurfiol gael ei gyflwyno i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

8. Cydnabod pwysigrwydd mecanwaith cymorth o ran y broses o ystyried unigolion ar gyfer ail dymor, a nodi'n glir i'r holl aelodau presennol a newydd nad yw'n broses recriwtio agored awtomatig.

9. Pleidleisiodd yr aelodau i gymeradwyo'r argymhelliad ynghylch aelodaeth y Cyngor, gydag un bleidlais yn cael ei hatal.

10. Cymeradwyodd yr aelodau y newidiadau a argymhellir i aelodaeth staff yr is-bwyllgorau.

**64. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

1. <u>Adroddiad yr Is-Ganghellor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2425-103)

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; adroddiad ar ddenu myfyrwyr a chynllunio; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Adroddodd yr Is-Ganghellor am ei ymddangosiad, ochr yn ochr â chymheiriaid o Gymru, ym Mhwyllgor Dethol Materion Cymreig Llywodraeth y DU. Roedd y sesiynau'n canolbwyntio ar yr heriau presennol sy'n wynebu'r sector addysg uwch yng Nghymru.

3. Mae gan y diwrnod agored sydd ar ddod tua 1900 o gofrestriadau, 500 yn fwy na'r llynedd. Diolchodd yr Is-Ganghellor i'r holl staff am eu gwaith yn y maes hwn.

4. Mae adolygiadau o'r holl wasanaethau proffesiynol ar y gweill, gyda phob un ar wahanol gamau. Hyd yn hyn bu un diswyddiad gorfodol, gyda thua 120 o bobl yn cymryd diswyddiad gwirfoddol. Mae'n bosibl bod 25 o ddiswyddiadau.

5. Gofynnodd yr aelodau am eglurhad ynghylch llai o gyfleoedd am gyflogaeth myfyrwyr a chadarnhaodd swyddogion fod y pryder ynghylch recriwtio yn ymwneud â chyfleoedd gwaith i fyfyrwyr yn ystod y tymor, yn hytrach na chyflogadwyedd ar ôl graddio.

6. Nododd yr aelodau pa mor werthfawr yw darllen am yr holl bethau gwych sy'n digwydd ar draws y sefydliad.

7. Rhoddodd yr Is-Ganghellor wybod am benodiad y Prif Swyddog Marchnata newydd, a fydd yn ymuno â'r Brifysgol ar 29 Medi.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau a chytunwyd i ddychwelyd at bwnc cyflogadwyedd a'r opsiynau am gyflogaeth mewn cyfarfodydd yn y dyfodol [**GWEITHRED:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**65. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Cyflwyniad gan Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor; a Jen Wolowic, Prif Arweinydd y Ganolfan Ddeialog

NODWYD

1. Derbyniwyd cadarnhad gan Swyddfa Adfywio Llywodraeth Cymru eu bod wedi cymeradwyo cyllid Parth Ieuenctid yn y cyllid eleni.

2. Nododd swyddogion fod y prosiect yn symud o 6 parth codi arian i 7 o unedau gweithredol. Sicrhawyd yr aelodau bod trafodaethau yn parhau yn fewnol ynghylch symud i'r cam gweithredol.

3. [redacted]

4. Nododd yr aelodau eu dymuniad i gymryd rhan mewn trafodaethau pellach ynghylch y blaenoriaethau ar gyfer yr adeilad.

5. Nodwyd nad y gwesty yw'r unig elfen fusnes, a bod angen eglurder ynghylch beth yw'r meini prawf llwyddiant.

**PENDERFYNWYD**

6. Gofynnodd yr aelodau am ragor o fanylion am yr hyn y mae'r Brifysgol wedi ymrwymo iddo o ran y rhwymedigaethau ariannu. [**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr]

7. Cadw'r opsiwn o gynnull cyfarfod ar-lein arbennig o'r Cyngor cyn mis Hydref os oes angen [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol i gysylltu â'r Dirprwy Is-Ganghellor ar dyddiadau posibl].

**66. MATERION ARIANNOL**

1. <u>Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2425-104).

NODWYD

1. Cyllideb y Brifysgol a gymeradwywyd ar gyfer 2024-25 yw diffyg o £3.0m. O ganlyniad i symudiadau ffafriol yn Ch3, yr alldro a ragwelir yw diffyg o £2.8m. Mae hyder wrth gyflawni'r gyllideb wedi cynyddu ers Ch2, er bod cyflawni'r diffyg o £2.8m a ragwelir yn dal i olygu rhaglen sylweddol o arbedion cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r amrywiant ychydig yn ffafriol i'r gyllideb yn cael ei yrru'n bennaf drwy nodi'r rhan fwyaf o'r arbedion, ynghyd â rheoli'r swyddi gwag ar gyfer y chwarter diwethaf.

2. Mae'r sefyllfa arian parod ar y blaen i'r gyllideb, gyda chynnydd a ragwelir yn y diwrnodau arian parod a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y cynllun o 18 i 22 diwrnod (targed 60 diwrnod). Mae'r flwyddyn hyd yn hyn yn gadarnhaol iawn.

3. Mae oediad amser ar gostau cyfleustodau a fydd yn bwydo i mewn i'r pedwerydd chwarter. Ar sail y gwaith a wnaed hyd yn hyn, nid yw swyddogion yn disgwyl unrhyw oediad arall o ran y costau. Efallai y bydd darpariaethau sy'n gysylltiedig ag AD, ond ni fyddai'r rhain yn arwyddocaol.

4. Roedd trafodaethau yn y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi edrych ar sefyllfa'r arian parod, gan gynnwys cwestiynau ynghylch nwyddau traul, sy'n cario arbedion sylweddol - ac a yw hynny'n cyflwyno unrhyw risgiau o ran y ddarpariaeth weithredol.

5. Cadarnhaodd diweddariad ar yr adolygiad o'r ffermydd bod y strwythur a'r staffio bellach ar waith. Mae goramser wedi cael ei leihau gan ei fod bron cymaint â'r bil cyflog. Mae swyddogion yn edrych ar ychwanegu costau ar gyfer defnydd fferm i gostio grantiau. Nodwyd bod y Pwyllgor AR&S wedi bod yn monitro'r ffermydd a bod Rheolwr y Fferm wedi rhoi cyflwyniad da iawn ynghylch risgiau a chyfleoedd.

6. Nododd yr aelodau fod y gronfa caledi myfyrwyr wedi cael ei dihysbyddu bron a chwestiynwyd a oedd hynny'n arwyddocaol. Nododd swyddogion y byddai'r gwariant bob amser yn uwch yn gynharach yn y flwyddyn, ond bod ailgynllunio'r gwasanaeth yn cael ei ystyried yn rhan o'r adolygiad o'r gwasanaethau proffesiynol.

7. Nodwyd bod y gerio yn llai nag y cyllidwyd ar ei gyfer. Mae hyn yn broblem amseru yn bennaf gan nad oedd arian yr oedd y Brifysgol yn disgwyl ei dderbyn ym mis Ebrill wedi dod i law tan fis Mai.

8. Cytunwyd ar yr adnodd credyd cylchol (RCF) gyda NatWest ym mis Ionawr 2024 ac mae'n ofynnol i'r Brifysgol gyflwyno ffurflenni chwarterol. Pan gyflwynwyd data Ch2 ddiwedd mis Mawrth, nododd y swyddogion bryder ynghylch sefyllfa Ch3 gan fod y derbyniadau llety yn disgyn i Ch4. Derbyniodd y banc mai anghysondeb oedd hynny. [redacted]

9. Cyflwynwyd ffigurau i'r banc ar 27 Mehefin a gofynnodd y Brifysgol am hawlildiad, gan fod y sefyllfa'n seiliedig ar amseru yn unig. Mae'r banc wedi cadarnhau heddiw bod yr hawlildiad wedi'i gymeradwyo. Bydd angen nodi hyn yn

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

ein cyfrifon diwedd blwyddyn. Cwestiynodd yr aelodau a oes angen rhoi gwybod os yw'r banc wedi cytuno i'r hawlildiad. Cadarnhaodd swyddogion ei fod yn amod o'r contract ei bod hi'n rhaid i ni roi gwybod.

10. Er mwyn eglurder yn y dyfodol, mae angen ffurfioli'r cyfarfodydd gyda'r banc, gyda dadansoddiad llawn o'r cyfamod ym mhob chwarter, yn hytrach na'r dadansoddiad lefel uchel cyfredol. **[GWEITHREDU:** Prif Swyddog Ariannol]

11. Nododd swyddogion y pwynt methiant unigol ac yr ymdrinnir â hyn yn yr adolygiad o'r gwasanaethau proffesiynol, gan ddarparu adnoddau ac arbenigedd priodol i gefnogi'r Prif Swyddog Ariannol. Nodwyd y bydd ailstrwythuro'r tîm Cyllid yn gwella'r ddealltwriaeth o sut mae darparu adroddiadau cyllid a chostau ar draws y brifysgol.

12. Roedd cadeiryddion y Pwyllgor AR&S a'r Pwyllgor A&Ph yn ddiolchgar am yr hysbysiad cynnar o beth yw methiant technegol o un o chwech o fetrigau'r cyfamod. Nodwyd bod sgyrsiau gyda'r banc wedi bod yn gadarnhaol, a bod y sefyllfa bresennol yn amlwg yn gadarnhaol. Mae'r banc wedi cael manylion y cyllidebau ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD**

13. Cymeradwywyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. <u>Cyllideb ar gyfer 2025-26, a Rhagolygon Ariannol y blynyddoedd tan 2029-30</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2425-105).

NODWYD

1. Roedd y Pwyllgor A&Ph wedi nodi bod y gyllideb yn gwthio'r pwynt adennill costau yn ôl flwyddyn ond bod hynny eisoes wedi'i drafod yn y Cyngor. Cwestiynodd yr aelodau a oedd y dybiaeth chwyddiant o 2% yn rhesymol neu'n rhy isel. Nid yw'r Brifysgol yn rhy ddiamddiffyn felly credwyd ei fod yn ffigwr rhesymol. Mae'r model yn realistig, ond mae yna le i ymestyn yno hefyd. Roedd y Pwyllgor A&Ph yn hapus i argymell y ddwy elfen.

2. Ail-drefnu ad-daliad y cronfeydd elusennol oedd ail elfen y cynnig. Mae'r proffil ad-dalu yn golygu ein bod yn dynn o ran hylifedd arian parod, felly'r cynnig yw gohirio tan 2026-27 (y pwynt adennill costau newydd) ac ad-dalu dros gyfnod hirach. Mae risgiau y mae'r Brifysgol yn eu cario o ran buddsoddiad angenrheidiol yn ein hystadau corfforol a digidol.

3. Roedd trafodaethau'n cynnwys nodi cyllid ar gyfer y rhaglen gyfalaf, nifer y myfyrwyr a ragwelwyd, a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer pennu'r gyllideb. Nododd swyddogion fod mwy o ddadansoddiad nag y llynedd, a bod y Brifysgol bellach yn cymhwyso'r un profion a ddefnyddiwyd gan Medr a KPMG.

4. Nododd swyddogion fod cynllun buddsoddi manwl ar gyfer yr ystad ddigidol a chorfforol yn cael ei lunio a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Hydref. **[GWEITHREDU:** Prif Swyddog Ariannol]

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

**PENDERFYNWYD**

5. **[GWEITHREDU:** Y Prif Swyddog Ariannol] i ddarparu dadansoddiad sy'n dangos ad-daliadau CPAPA i gynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Ymddiriedolwyr CPAPA.

6. Cymeradwyo'r gyllideb.

7. Cymeradwyo'r cynllun ad-dalu diwygiedig.

3. <u>Gwaredu Campws Llanbadarn</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Tim Macy, Rheolwr Cynllunio Gofod a'r Ystad (COU2425-106)

NODWYD

1. Derbyniwyd cynnig [redacted]

2. Cadarnhaodd Cadeirydd y Pwyllgor A&Ph fod y pwyllgor hwnnw wedi derbyn diweddariad ar lafar, a bod y papur hwn i'r Cyngor yn cynnwys mwy o fanylion. Mae'r Pwyllgor A&Ph yn cytuno ag addasrwydd strategol y cynnig.

3. Nododd yr aelodau y cyfnod diffiniedig o ddiwydrwydd dyladwy, ond pwysleisiodd yr angen am eitemau penodol yn hynny, ond hefyd yr opsiwn i gyflymu'r amserlen os yw'n briodol.

4. [redacted]

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyodd yr aelodau y cynnig i dderbyn y cynnig [redacted].

6. Cytunodd yr aelodau i ddirprwyo awdurdod i'r Pwyllgor A&Ph ar gyfer cwestiynau ac i'r Is-Ganghellor i lofnodi Penawdau'r Cytundeb.

4. <u>Diweddariad ar Gynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA)</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-107).

NODWYD

1. Mae Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA) yn Gynllun buddiannau diffiniedig i staff anacademaidd ac roedd wedi'i gau i aelodau newydd a chroniadau pellach ym mis Mawrth 2015. Roedd prisiad teirblynyddol diweddar y cynllun ar 1 Awst 2023, gyda'r nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 1 Awst 2026. Mae ymddiriedolwyr y cynllun yn ceisio diwygio'r atodlen cyfraniadau i ganiatáu i brosiectau penodol gael eu hariannu'n uniongyrchol o asedau'r cynllun,

Cymeradwywyd gan y Cyngor 01/10/2025

er mwyn sicrhau bod y prosiectau yn bodloni'r dyddiadau cau statudol heb roi pwysau ar lif arian parod y Brifysgol.

2. Nodwyd bod y sefyllfa a amcangyfrifwyd o ran cyllido'r cynllun yn waeth nag a adroddwyd yn flaenorol. Mae hyn oherwydd y cynhelir y cyswllt cyflog terfynol cyn belled â bod y gweithiwr yn parhau i gael eu cyflogi gan y Brifysgol serch unrhyw ddyrchafiad i rôl graddedig USS, y mae'r actiwari wedi cadarnhau nad yw wedi'i gynnwys yn eu rhagdybiaethau prisio. Nid oes gan hyn effaith uniongyrchol; bydd y sefyllfa gyllido yn cael ei hailgyfrifo'n llawn o 1 Awst 2026 a bydd cynllun adfer yn cael ei drafod. Mae cyfraniadau'r Brifysgol, fodd bynnag, yn debygol o godi.

3. Nododd yr aelodau y byddent wedi disgwyl i'r mater hwn gael ei godi yn gynt, naill ai gan y Brifysgol neu gan ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn. Cadarnhawyd bod y mater wedi'i nodi gan fod pensiynwyr cymwys yn cyflwyno eu hawliadau.

4. Nododd yr aelodau, ar y daith i ddod yn sefydliad mwy tryloyw, ei bod hi'n anochel y byddai materion hanesyddol yn cael eu nodi. Gofynnodd yr aelodau a oedd hi'n bosibl cofnodi'r ffaith bod y Brifysgol yn ceisio nodi materion ac yna mynd i'r afael â nhw'n rhagweithiol.

**PENDERFYNWYD**

5. Nododd yr aelodau effaith cyswllt cyflog yr USS a'r perfformiad diweddar o ran buddsoddiad a chymeradwywyd y diwygiadau arfaethedig i gynllun adfer CPAPA

5. <u>Diweddariad ar Werth Presennol Net Fferm Penglais</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Stephen Harrison, Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro, yr Adran Gyllid (COU2425-108).

NODWYD

1. Cymeradwywyd prosiect Fferm Penglais yn seiliedig ar fodel ariannol gwreiddiol a oedd yn rhagweld gwerth presennol net (NPV) cyffredinol y prosiect o £13.3m. Roedd y rhagolwg hwn yn seiliedig ar gynnydd blynyddol o 2.5% y flwyddyn ar gyfer incwm a chostau prosiect.

2. Dylai cynnydd canrannol blynyddol i renti myfyrwyr yn Fferm Penglais sy'n fwy na'r RPI arwain at gynnydd i'r NPV net cyffredinol a ragwelir ar gyfer y prosiect, ond dylai cynnydd islaw RPI arwain at ostyngiad i'r NPV cyffredinol a ragwelir ar gyfer y prosiect.

3. Nododd yr aelodau galedi myfyrwyr a'n bod yn ymdrechu i godi gyfuwch â chwyddiant i liniaru unrhyw effaith bosibl ar fyfyrwyr.

4. Nododd yr aelodau NVP ffafriol cyffredinol y prosiect (£6.8m) o'i gymharu â'r model ariannol.

5. Mae penderfyniadau strategol sy'n ymwneud â chodi ffioedd neuadd ar gyfer 2024-25 a 2025-26 wedi alinio incwm â chostau'r prosiect, gan danlinellu effaith codi ffioedd gan godi gyfuwch â chwyddiant lle bo'n bosibl.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

**PENDERFYNWYD**

6. Cytuno bod unrhyw gynnydd yn y rhent yn y dyfodol yn cyfateb â neu'n fwy na'r chwyddiant a ragwelir oni bai bod angen strategol neu fusnes clir ac amlwg sy'n atal hyn.

6. <u>Gweithred Amrywio</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Maria Ferreira, Rheolwr Gweithrediadau a Stephen Harrison, Pennaeth Gweithrediadau Dros Dro, yr Adran Gyllid (COU2425-109).

NODWYD

1. Roedd y ffi a gyhoeddwyd ar gyfer Pentre Jane Morgan yn 2024-25 yn seiliedig ar 7% o gynnydd ond, yn seiliedig ar y cynnydd fformwläig contractiol, dylai hyn fod wedi bod yn 13.5%. Felly, mae diffyg parhaus o'i gymharu â'r sefyllfa gontractiol o 3.5%.

2. Mae'r Weithred Amrywio yn cynnig bod hyn yn cael ei gywiro yn 2025-26 trwy ychwanegu premiwm cynnydd o 3.5%, gan ddychwelyd i'r sefyllfa gytundebol o 2026-27 a hyd at ddiwedd y cytundeb.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr aelodau y weithred amrywio ac awdurdodwyd defnyddio sêl y Brifysgol i godi'r cyfraddau rhent ym Mhentre Jane Morgan ar gyfer 2025-26.

**67. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Adolygiad o Ddogfennau Llywodraethu</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, <u>Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg</u> (COU2425-111).

NODWYD

<u>Ordinhadau</u>

1. Cytunodd y Pwyllgor Ll&Ch, yn dilyn gweithdy yn 2023-24, y dylid crynhoi polisïau i wella eglurder i staff. Mae sawl polisi AD wedi'u hysgrifennu mewn Ordinhad, felly byddai angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer unrhyw newidiadau. Teimlwyd nad oedd angen arolygiaeth o'r fath ar gyfer pob polisi, lle byddai angen gweld a chytuno ar unrhyw newidiadau gan y Weithrediaeth, y Pwyllgor Ll&Ch a'r Cyngor, yn ogystal â'r Undebau Llafur.

2. Nododd Statudau y bydd Ordinhadau yn nodi'r gweithdrefnau disgyblu y dylai staff a myfyrwyr eu dilyn. Mae'r swyddogion yn cynnig bod dwy weithdrefn lefel uchel yn parhau i gael eu hysgrifennu yn yr Ordinhad – un ar gyfer staff ac un ar gyfer myfyrwyr – ond bod y lleill yn cael eu tynnu a'u dirprwyo i'r Is-Ganghellor a'r Weithrediaeth i'w rheoli a'u goruchwylio.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

3. Cwestiynodd yr Aelodau yr angen i gadw ordinhad disgyblu [**GWEITHRED**: Ysgrifennydd y Brifysgol i ofyn am gyngor cyfreithiol ynghylch a yw'r elfen ddisgyblu angen bod mewn statud/ordinhad].

4. Fel y trafodwyd yn eitem 63, mae'r Pwyllgor Enwebiadau yn cynnig newidiadau i'r cyfnod yn y swydd a'r broses ailbenodi i'r Cyngor. Mae'r geiriad diwygiedig yn ymgorffori'r newidiadau hyn i gynnwys y matrics sgiliau a'r adroddiad amrywioldeb ar gyfer y Cyngor ac is-bwyllgorau.

<u>Siarter a Statudau</u>

5. Yn ystod adolygiad diweddar o'r Siarter a'r Statudau, nodwyd nad oedd y Statudau wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newidiadau i gyfnod aelodau o'r Cyngor yn y swydd, fel y cytunwyd arnynt yn 2020. Mae'r newid hwn angen cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor, a all fod yn broses hir. Cytunodd y Pwyllgor Ll&Ch ei fod yn synhwyrol manteisio ar y cyfle hwn i adolygu'r Statudau yn llawn.

6. Y cynnig yw dileu'r ddarpariaeth ar gyfer aelodaeth gyfetholedig o'r Cyngor, ond i gadw'r aelodau cyfetholedig ar gyfer is-bwyllgorau. Nid yw aelodau wedi'u cyfethol i'r Cyngor ers nifer o flynyddoedd a gallai aelodaeth o'r fath greu anghydbwysedd o ystyried na fyddent yn Ymddiriedolwyr, a llinellau aneglur o ran eu cyfrifoldebau a'u lefel o atebolrwydd.

7. Nododd yr aelodau fod cyfethol aelodau ar is-bwyllgorau yn ffordd dda o ddatblygu aelodau newydd o'r Cyngor.

8. Trafododd yr aelodau hefyd a oes awydd i gynyddu nifer yr aelodau ar y Cyngor o 18. Nododd Ysgrifennydd y Brifysgol fod Adolygiad Camm yn argymell cadw maint y cyrff llywodraethu islaw 22 o aelodau.

<u>Y llys</u>

9. Cynhaliwyd trafodaeth o fewn y Brifysgol am y Llys. Nid oes manylion ynghylch sut y dylai'r Llys gael ei redeg, sy'n darparu hyblygrwydd, a chredwn fod y digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid blynyddol yn beth da ac nid yw'n feichus.

**PENDERFYNWYD**

10. Cadw nifer presennol yr aelodau o'r Cyngor

11. Diwygio'r Statudau i adlewyrchu'r tymor pedair blynedd ar y Cyngor a gymeradwywyd. [**GWEITHRED:** Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cysylltu â'r Cyfrin Gyngor yn ôl Canllawiau Swyddfa'r Cyfrin Gyngor].

12. Cadw'r Llys, fel adnodd pwysig mewn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

2. <u>Aber Trading Cyf</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Chris Heidt, Rheolwr Masnachol, RBI, (COU2425-111).

NODWYD

Cymeradwywyd gan y Cyngor 17/10/2025

1. Mae gan y Brifysgol ddau is-gwmni i sianelu gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth anelusennol. Mae un, Aber Trading, ar hyn o bryd yn rhedeg ar golled o ganlyniad i ffioedd archwilio a chostau rhedeg uchel, ac felly cynigir diddymu'r cwmni a throsglwyddo unrhyw asedau i Ymgynghori Busnes Aber Cyf.

2. Cwestiynodd yr aelodau a oes unrhyw oblygiadau o ran treth wrth ddiddymu'r cwmni a throsglwyddo'r asedau.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r cynnig i ddiddymu Aber Trading, os y ceir sicrwydd nad oes unrhyw oblygiadau treth. [**GWEITHRED:** Rheolwr Masnachol, Ymchwil, Busnes ac Arloesi]

3. <u>Diwygiadau i Gytundeb Perthynas Undeb Aberystwyth.</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; a Trish McGrath, Undeb Aberystwyth (COU2425-113).

NODWYD

1. Mae'n amod gan Medr bod prifysgolion ac undebau myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu'n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.

2. Ni chynigiwyd newidiadau sylweddol i'r Cytundeb Perthynas fel y saif ar hyn o bryd. Mae paragraff 4 wedi'i ddiwygio ychydig i ddweud y bydd y Brifysgol yn 'ymgysylltu', yn hytrach nag 'ymgynghori', sy'n adlewyrchu natur y berthynas a'r ffyrdd o weithio'n well .

3. Mae'r Pwyllgor Ll&Ch yn argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cytundeb

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwywyd y cytundeb gan yr aelodau.

4. <u>Canlyniad yr Arolwg o Effeithiolrwydd y Cyngor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2425-114).

NODWYD

1. Dangosodd y gyfradd ymateb gynnydd ar y flwyddyn flaenorol, gyda'r ymatebion yn gadarnhaol ar y cyfan. Nododd swyddogion fod y materion a nodwyd oll yn bethau sydd wedi'u datrys yn ddiweddar neu sydd wrthi'n cael eu datrys.

2. Bydd y broses o fesur effeithiolrwydd ar draws y Cyngor a'r is-bwyllgorau yn cael ei hadolygu dros yr haf.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

5. <u>Talu Llywodraethwyr y Brifysgol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-115).

NODWYD

1. Mae trafodaethau'n parhau ar lefel Cymru a'r DU, er y nodwyd bod y cyd-destun ychydig yn wahanol yn Lloegr ac mae pecynnau talu ar waith mewn rhai prifysgolion, o leiaf ar gyfer Cadeiryddion. Yng Nghymru, y sefyllfa o hyd yw y gall aelodau o'r corff llywodraethu hawlio treuliau rhesymol ond ni chânt dâl am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd.

2. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Ll&Ch argymell i'r Cyngor nad oes unrhyw newid yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd o ran tâl. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn parhau i gadw llygad yng ngoleuni trafodaethau'r sector.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr aelodau yr argymhelliad na wneir unrhyw newid o ran talu Llywodraethwyr y Brifysgol.

**68. ADRODDIAD GAN UNDEB ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan Millie Hackett, Llywydd Undeb Aberystwyth a Nanw Maelor, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA.

NODWYD

1. Mae Gorffennaf yn nodi dechrau newydd ac mae'r swyddogion amser llawn newydd wedi dechrau yn eu swyddi ers 5 niwrnod. Mae llawer o'u hamser hyd yma wedi cael ei dreulio mewn hyfforddiant Cymru gyfan. Darperir diweddariad mwy manwl yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref.

2. Nododd Llywydd UMCA eu bod yn ffodus i allu adeiladu ar sylfaen gref eu rhagflaenydd. Fe wnaethon nhw ymweld â Bangor yr wythnos ddiwethaf a chael trafodaethau da gyda Bangor, Abertawe a Chaerdydd, gan gynnwys sgyrsiau am heriau Llety cyfrwng Cymraeg.

3. Nododd y swyddogion fod egluro a gwella'r berthynas rhwng UMCA a'r Undeb, a phwysigrwydd rhoi cyfleoedd am gyflogaeth go iawn i fyfyrwyr yn flaenoriaethau allweddol .

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau a chroesawyd swyddogion UM i'w cyfarfod cyntaf llawn o'r Cyngor:

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/11/2025

**69. ADRODDIAD BLYNYDDOL UMABER i'r SENEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, y Dirprwy Gofrestrydd (COU2425-118)

NODWYD

1. Aeth yr adroddiad i'r Senedd ond caiff ei gyflwyno i'r Cyngor i'w nodi gan yr aelodau.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

Gadawodd Jane Usherwood y cyfarfod

**70. Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio, a Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2425-119)

NODWYD

1. Yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgor AR&S, mae Gweithrediaeth y Brifysgol wedi cynnig ymagwedd ddiwygiedig at reoli risg. Mae hyn yn rhoi ffocws strategol ar risg sefydliadol a ffocws gweithredol ar risgiau cyflenwi.

2. Mae Cofrestr Risg y Brifysgol wedi'i datblygu i alinio â Strategaeth a Chynlluniau newydd y Brifysgol. Ar gyfer pob cynllun, mae rhestr o risgiau i lwyddiant y cynllun wedi'i nodi gan berchennog y risg a bydd y rhain yn cael eu rheoli fel risgiau gweithredol ar wahân ar gyfer pob cynllun. Nod y Gofrestr Risg Corfforaethol yw lliniaru risgiau a fydd yn ein hatal rhag cyflawni nodau ein cynllun strategol.

3. Datgelodd y rhestr o risgiau sawl maes pryder cyffredin yr ystyriwyd eu bod yn cyflwyno lefelau risg digon sylweddol i'w cynnwys ar y gofrestr strategol sefydliadol (cyllid, data a staffio). Ychwanegwyd y prif risgiau sy'n deillio o bob un o'r cynlluniau at y rhain. Mae trafodaethau gan y Weithrediaeth ynglŷn â rhestr newydd o risgiau strategol yn parhau.

4. Mae newidiadau yn cael eu gwneud i'r ffordd y mae risgiau yn cael eu sgorio a'u mynegi a ddylai wneud pethau'n haws i gydweithwyr. Mae ffyrdd o integreiddio'r risgiau gweithredol â'r gofrestr gorfforaethol yn cael eu hadolygu.

5. Trafododd yr aelodau y cynigion, gan nodi'r anhawster o ddad-ddwysáu risgiau sydd wedi'u hysgrifennu'n fras, a cheisio eglurder ynghylch yr hyn a fyddai angen bod yn wir er mwyn gallu dad-ddwysáu risgiau penodol.

6. Nododd yr Aelodau eu bod yn credu ei bod hi'n briodol cael risg diwylliant ar y lefel uchaf, yn ystod ac ar ôl y rhaglen drawsnewid.

7. Gyda'r enghraifft o brosiect yr Hen Goleg, dylid ystyried a yw'r risg honno yn sbarduno risg arall. Gyda risgiau cyfanredol, mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau priodol ar waith.

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025

8. Nododd swyddogion efallai na fydd yr hyn sy'n bwysig i'r Weithrediaeth o safbwynt risg yr un fath â'r hyn sy'n bwysig i'r Cyngor. Mae gwahaniaeth, er enghraifft, rhwng cofrestr risg a fframwaith sicrwydd y bwrdd.

**PENDERFYNWYD**

9. Cymeradwyodd yr aelodau, gan nodi'r amcan o gyrraedd pwynt lle nad yw risgiau a'r broses o'u rheoli yn cael eu cytuno gan y Cyngor.

## 71. DOGFENNAU WEDI'U SELIO Â'R SÊL GYFFREDIN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2425-120)

**NODWYD**

Nododd yr aelodau y ddwy ddogfen yr oedd y sêl wedi'i gosod arnynt ers y cyfarfod diwethaf, sef y cytundeb gyda Chawton House ac USS, a'r weithred CPAPA.

## 72. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU

**NODWYD**

Nododd cadeiryddion yr is-bwyllgorau fod y prif faterion wedi cael eu trafod a'u hystyried yn ystod y cyfarfod.

## 73. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar brynhawn Mawrth, 7 Hydref 2025, ar ôl sesiwn strategaeth ar brynhawn Llun, 6 Hydref a bore Mawrth, 7 Hydref.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Cyngor a'r is-bwyllgorau y mae eu tymhorau wedi dod i ben.

Diolchodd y Cadeirydd hefyd i aelodau'r Weithrediaeth a'u timau.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:10

Cymeradwywyd gan y Cyngor 07/10/2025